Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a elwid yn Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cymorth i gyflawni ei botensial ni waeth o ba gefndir y daw na'i amgylchiadau personol. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am roi ei sylw i ddeilliannau addysgol y dysgwyr hyn.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod nad un grŵp unffurf yw dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a bod gan y dysgwyr hyn anghenion gwahanol a lefelau cyrhaeddiad addysgol sy'n amrywio'n sylweddol. Bydd nifer o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn perfformio'n well na chyfartaleddau cenedlaethol ac mae adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod bod perfformiad dysgwyr ymhlith y mwyafrif helaeth o'r grwpiau hyn wedi gwella'n ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod bod angen gwneud rhagor, yn enwedig ar gyfer y grwpiau hynny y mae eu perfformiad yn dal i fod yn sylweddol ac yn ystyfnig is na'r cyfartaleddau cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r her yn sylweddol. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn nodi nifer o faterion a oedd yn bodoli ymhell cyn dyddiad cyflwyno'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion ac y mae ein gwasanaethau a'n hysgolion wedi bod yn gweithio arnynt ers tro. Mae'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng annog a chefnogi pob dysgwr i fanteisio ar gyfleoedd addysgol i gyflawni eu potensial academaidd a galwedigaethol, a pharchu'r gwerthoedd amrywiol yn ein cymunedau sy'n cyfrannu at y Gymru fodern a blaengar yr ydym yn byw ynddi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ymrwymiad a chyfraniad y sector, ein gwasanaethau a'n hysgolion o ran cefnogi'r dysgwyr hyn dros nifer o flynyddoedd. Mae argymhellion y Pwyllgor yn cynnig ffocws clir ar gyfer gweithredu ac mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am ei sylw i'r mater pwysig hwn.

Rhoddir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod. Nodir os gwelwch yn dda fod yr ymatebion mewn rhai achosion wedi eu grwpio gyda'i gilydd.

Argymhelliad 1:
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r model gorau ar gyfer ariannu gweithgarwch i gefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig . Dylai edrych eto ar y cwestiwn hwn yn ddiweddarach yn y Pumed Cynulliad ac ystyried a yw cyflwyno'r Grant Gwella Addysg wedi gwella deilliannau'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru wella'i threfniadau monitro a gwerthuso ar gyfer y Grant Gwella Addysg drwy'r camau gweithredu a nodir yn argymhellion 2 i 7 a mynd i'r afael â'r argymhelliad cyffredinol hwn erbyn diwedd 2020.

Argymhelliad 2:

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i fonitro'r defnydd o'r Grant Gwella Addysg a gwerthuso'i effaith, yn benodol mewn perthynas â deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

Ymateb: Derbyn argymelliadau 1 a 2
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r Grant Gwella Addysg yn ei drydedd flwyddyn a bydd yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer monitro effaith y grant ym mlwyddyn ariannol 2017-18.

Cyflwynwyd y Grant ym mis Ebrill 2015 ar ôl ad-drefnu nifer o ffrydiau cyllid grantiau addysg unigol gan ymateb i geisiadau gan ysgolion, Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol i symleiddio trefniadau'r grantiau a hwyluso'r ffordd o fanteisio ar grantiau addysg gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Grant yn cefnogi ein strategaeth addysg Cymwys am Oes ac mae'r trefniadau cyllido'n bodoli o fewn cyd-destun y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol sy'n dweud sut y bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd ac yn darparu eu gwasanaethau gwella ysgolion ar sail ranbarthol drwy gyfrwng consortia addysg rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol.

Cyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i sefydlu fframwaith canlyniadau cryfach i gefnogi'r grant yn 2017-18. Ar ôl i hwnnw gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai mynd ati fel hyn gefnogi'r ffynonellau cyllid eraill sy'n gysylltiedig â gwireddu ein strategaeth addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r cyllid sylweddol a ddarperir drwy'r Grant yn bodoli ar wahân i arian grant arall ar gyfer gwella ysgolion a'r cymorth a'r ddarpariaeth graidd mewn ysgolion. Yn y flwyddyn ariannol 16/17, mae'r Grant, sef £134 miliwn yn ganran fechan o gyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion sef £2.519 biliwn, ac mae £2.123 biliwn o'r swm hwnnw'n cael ei ddirprwyo i ysgolion. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau gwell dealltwriaeth o effaith y Grant a'i gyfraniad at wella deilliannau i ddysgwyr.

Argymhelliad 3:
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad mwy strategol o ran rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylid defnyddio'r Grant Gwella Addysg er budd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig

Argymhelliad 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o eglurder ynghylch rôl benodol Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion o ran monitro ac olrhain deilliannau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.

Ymateb: Derbyn argymelliadau 3 a 5
Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid drwy fecanweithiau a sefydlwyd i feithrin gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut y gellid defnyddio'r Grant er budd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr arbenigedd, y wybodaeth a'r profiad helaeth sydd yn ein hysgolion, ein Hawdurdodau Lleol a'u darparwyr gwasanaethau a chonsortia addysg rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol. Mae colofn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol, sy'n dweud sut y mae gwasanaethau gwella ysgolion yn cael eu darparu yng Nghymru, yn system hunan-wella. Mae gan y dull hwn rôl hanfodol i'w chwarae o ran lledaenu a phrif ffrydio arferion da.

Mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) wedi sefydlu llinell gyswllt uniongyrchol rhwng darparwyr gwasanaethau Awdurdodau Lleol a'u Cyfarwyddwyr Addysg drwy grŵp Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdodau Lleol (MEALA) a'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Mae arweinyddion y gwasanaethau mewn cysylltiad agos ag ysgolion ac yn rhoi cymorth i ysgolion ac i ddysgwyr unigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfodydd y MEALA a'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r fforymau'n cynnwys yn bennaf ddarparwyr gwasanaethau Awdurdodau Lleol ac mae'n gweithredu o dan nawdd rhwydwaith Cynhwysiant CCAC. Maent yn cynnwys cyfoeth o brofiad ymarfer ac arbenigedd o ran darparu cymorth i ddysgwyr agored i niwed a rhaid inni sicrhau bod yr adnodd hwn yn gweithredu'n effeithiol i gefnogi ymarfer a dysgwyr ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod gydag adran Cynhwysiant CCAC a Chadeirydd y grŵp dewisiadau i ehangu aelodaeth y grŵp i gynnwys cynrychiolwyr y consortia addysg rhanbarthol er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn a chyson ynglŷn ag anghenion y dysgwyr hyn ar draws y gwasanaethau addysg.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith perfformiad addysg y mae'n disgwyl i'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio i werthuso deilliannau'r Grant Gwella Addysg. Dylai'r fframwaith gyfeirio'n llawer mwy penodol at y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr lleiafrifoedd ethnig, fel bod gan bawb sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau i'r dysgwyr hyn ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r Grant Gwella Addysg.

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gryfhau'r trefniadau presennol ac i gydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol, er mwyn sefydlu fframwaith canlyniadau mwy cadarn ar gyfer y grant yn 2017-18. Ar ôl iddo gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai mynd ati fel hyn gefnogi cyllid o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â gwireddu ein strategaeth addysg.

Er mwyn myfyrio ar ein blaenoriaethau a'n gweledigaeth, rydym wrthi'n datblygu ein strategaeth gwella addysg newydd. Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn canolbwyntio mwy ar degwch a llesiant, ac yn gosod disgwyliad cenedlaethol clir y rhoddir cyfle teg i bob dysgwr ac y caiff y cymorth ei gryfhau i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau ym maes dysgu. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyfraniad cenedlaethol at gynlluniau busnes gwella ysgolion yr haen ganol (Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol) yn glir o ran helpu pob dysgwr, gan gynnwys y rheini sy'n wynebu rhwystrau, i gyflawni ei botensial.

Bydd cynlluniau busnes y consortia addysg rhanbarthol yn dilyn model tair lefel. Wrth ddatblygu eu cynlluniau busnes manylach ar lefel 2 a 3, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol Awdurdodau Lleol gynllunio ar gyfer gwelliannau addysg i bob dysgwr, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Bydd Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfynu ynghylch dulliau priodol o fesur deilliannau, ynghyd â rhaglenni a gweithgareddau i wella deilliannau addysgol i ddysgwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn herio Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol gan gyfeirio at ein disgwyliadau cenedlaethol drwy gyfrwng y cylch Adolygu a Herio sydd wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cylch hwn yn darparu her ddwyffordd a bydd yn cynnig modd i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd a hefyd yn cynnig mecanwaith arall i Awdurdodau a chonsortia addysg rhanbarthol godi'n ffurfiol y materion y mae'n fwy priodol eu datrys neu ddylanwadu arnynt ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

Argymhelliad 6:
Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith trylwyr wedi'i ddiweddaru o'r penderfyniad i gyfuno'r grantiau blaenorol yn y Grant Gwella Addysg o 2015-16, gan gyfeirio'n benodol at ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai'r asesiad hwn roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru ynglŷn â hawliau a chydraddoldeb plant. Dylai'r asesiad effaith hefyd ystyried pa mor llwyddiannus y bu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru unrhyw risgiau o effaith negyddol yn sgil y penderfyniad.

Ymateb: Gwrthod
Yng nghyd-destun adroddiad ac argymhellion llawn y Pwyllgor, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y byddai o fudd ailystyried yr asesiadau effaith a gynhaliwyd yn ystod tymor blaenorol y Cynulliad yn 2014/15.

Aseswyd yr Effaith ar Gydraddoldeb pan gyfunwyd y ddau grant a'u cynnwys yn y Grant Cynnal Addysg ym mis Awst 2014. Adolygwyd a diwygiwyd hyn wedyn ym mis Ebrill 2015 pan gyhoeddwyd yr asesiadau. Ni chyhoeddwyd y fersiynau cynharach oherwydd nad oedd y gyllideb derfynol wedi'i chyhoeddi ar y pryd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod diffygion wedi bod wrth gynnal yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac nid yw'n credu bod effaith sylweddol ar wasanaethau. Nid yw'n credu felly bod modd cyfiawnhau'r cais i swyddogion ailystyried yr asesiadau gwreiddiol. Yn ei adroddiad, ystyriodd y Pwyllgor yr amrywiaeth o safbwyntiau a gyflwynwyd yn y dystiolaeth am effaith newid trefniadau'r grantiau ar wasanaethau. Dywedodd Estyn, er enghraifft, mai prin oedd yr effaith a welwyd o ran y ffordd y darperir gwasanaethau cyflawni i leiafrifoedd ethnig a gwasanaethau addysg i Sipsiwn a Theithwyr. I raddau helaeth, roedd y rhain yn dal i fod fel yr oeddent cyn newid trefniadau'r grantiau. Roedd rhai newidiadau wedi'u gwneud - yng Nghaerdydd, er enghraifft, lle y tybiwyd y byddai dirprwyo rhagor o gyllid i ysgolion yn hytrach na'i gadw yn y gwasanaethau a gynhelir yn ganolog yn ddull mwy effeithiol o ymateb i amgylchiadau ardal yr awdurdod.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod rhai rhanddeiliaid yn poeni am yr effaith y byddai'r newidiadau yn ei chael, yn enwedig ar ddarparu gwasanaethau Awdurdodau Lleol, a bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cyfarwyddwyr arweiniol Addysg wrth ddatblygu'r trefniadau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r mecanwaith cyllido mwyaf priodol. Ar y sail hon, credwn na fyddai asesiad effaith ar wahân yn fuddiol ar hyn o bryd a byddwn yn hytrach yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ymateb yn gadarnhaol i argymhellion eraill y Pwyllgor.

Argymhelliad 7
Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan roi'r diweddaraf ar y sefyllfa ers ei adroddiad thematig diwethaf yn 2011. Dylai adolygiad Estyn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ers 2015-16 a dylai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso'r deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai Estyn gynnal yr adolygiad hwn fel rhan o'i gylch gwaith yn 2017-18 neu cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol.

Argymhelliad 9
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i asesu effaith tueddiadau cyllido tymor hir a'r trefniadau cyllid grant newydd ar feysydd gwasanaeth perthnasol yn yr awdurdod lleol.

Ymateb: Cytuno argymelliadau 7 a 9
Ar ôl trafod â Llywodraeth Cymru, mae Estyn wedi cytuno i gynnal adolygiad byr o'r maes hwn yn 2018-2019. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y cynnydd ers adroddiad Estyn yn 2011 ac yn ystyried effaith y gwasanaethau a'r cymorth addysgol presennol ar ddeilliannau'r dysgwyr hyn. I baratoi ar gyfer y gwaith hwn, mae Estyn wedi cytuno i gasglu tystiolaeth am sut y bydd consortia rhanbarthol yn monitro ac yn gwerthuso deilliannau dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig yn ei waith arolygu dilynol gyda'r consortia yn ystod hydref 2017.

Argymhelliad 8
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i gael gwell dealltwriaeth o faint o gyllid sy'n cael ei ddarparu i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd ystyried nifer y dysgwyr y mae'r cyllid hwn yn eu cefnogi, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid, a rhoi asesiad i'r Pwyllgor o lefelau cyllido fesul disgybl.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor
Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol er mwyn deall yn fwy clir y cyllid cyffredinol a ddarperir ar gyfer cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a gwasanaethau addysg i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl cyflwyno'r Grant Gwella Addysg a bydd yn rhoi asesiad o'r lefelau cyllido i'r Pwyllgor.

Yn wahanol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion, sef yr hyn sydd bellach yn cael ei alw'n Grant Datblygu Disgyblion, nid yw'r Grant Gwella Addysg wedi'i seilio ar gyllido fesul disgybl ac felly ni fydd yn bosibl darparu asesiad ar y telerau hyn. Serch hynny, mae'n bwysig nodi'r rhyddid a roddir i Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol drwy'r Grant Gwella Addysg i ddosbarthu cyllid y grant yn unol ag anghenion lleol a rhanbarthol. Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu faint o arian mae'n rhaid ei roi i wasanaethau neu raglenni unigol, ac felly, wrth gydnabod yr heriau y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu, mae gan Awdurdodau Lleol yr hyblygrwydd i gyfeirio cyfran fwy o'r Grant Gwella Addysg i wasanaethau unigol yn unol â'u blaenoriaethau lleol a rhanbarthol ac anghenion eu cymunedau.

Argymhelliad 10
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cofnodi data mwy dibynadwy a chywir am niferoedd y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dyraniadau o'r Grant Gwella Addysg mewn perthynas â'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn seiliedig ar y data mwyaf cyfoes a dibynadwy.

Ymateb: Cytuno
Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y rôl bwysig y gall gwasanaethau Awdurdodau Lleol i Leiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr ei chwarae o ran sicrhau bod data CYBLD yn fwy dibynadwy. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag arweinyddion y gwasanaethau drwy'r MEALA a'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr i weld sut orau y gall ein gwasanaethau barhau i helpu ysgolion i gasglu data CYBLD mwy cywir am y grwpiau hyn o ddysgwyr. Mae'r codau ethnigrwydd presennol yn cael eu hadolygu i ddiffinio Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn well a sicrhau eu bod yn cael eu priodoli'n gywir.

Mae gan y Grant Gwella Addysg gyllideb flynyddol y byddwn yn ei dyrannu'n llawn i'r consortia addysg rhanbarthol. Defnyddir data CYBLD i lywio'r methodolegau cyllido a'r dyraniadau rhanbarthol o dan y Grant Gwella Addysg ac yn unol â'r trefniadau ariannu, bydd gan Awdurdodau Lleol a'r consortia rhanbarthol y rhyddid i benderfynu faint o'r cyllid y byddant yn ei gyfeirio at eu gwasanaethau yn unol â'u blaenoriaethau ac anghenion eu cymunedau. Mae gan y Consortia a'r Awdurdodau Lleol yr hyblygrwydd eisoes i gyfeirio rhagor o'r arian a gânt i'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Argymhelliad 11
Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol ymhlith dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithio i gau'r bwlch rhyngddynt a'u cyfoedion. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb

Argymhelliad 12
Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol grwpiau penodol o leiafrifoedd ethnig sydd â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl, yn enwedig disgyblion Du neu Ddu Prydeinig, a disgyblion ethnigrwydd cymysg Gwyn a Du Caribïaidd. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb.

Ymateb: Cytuno argymelliadau 11 a 12
Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ffocws sylweddol drwy ganllawiau, adnoddau a chyfarpar i ymarferwyr addysg i gefnogi cyrhaeddiad y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac i rai grwpiau o ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig.

Mae *Teithio Gyda'n Gilydd* yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Sipsiwn a Theithwyr o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ac yn rhoi arweiniad i ysgolion drwy gasglu adnoddau a gynhyrchwyd gan y Gwasanaethau Addysg i Deithwyr a gwefannau arbenigol ar gyfer cymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr. Datblygwyd yr adnodd i ategu cyrhaeddiad, i ddarparu cwricwlwm diwylliannol gadarnhaol, ac i annog pontio a llai o wthio dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr i'r cyrion. Ar wahân i hyn, mae *Gypsy and Traveller Education: Engaging families – A Research report (Saesneg yn unig)* yn sôn yn fanwl am yr hyn sy'n gweithio wrth ymgysylltu â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ym myd addysg gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrhaeddiad, presenoldeb yn yr ysgol, pontio a chadw.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i *Gypsy, Roma and Traveller children in the Welsh education system: Promoting Equality and Tackling Racism* sy'n darparu gwybodaeth a gweithgareddau i helpu dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgartrefu yn yr ysgol. Fe'i datblygwyd drwy ymgynghori ag aelodau o'r cymunedau Sipsiwn, Roma, Teithwyr i helpu i chwalu rhwystrau, i hybu dealltwriaeth, ac i greu profiad ysgol groesawgar a chynhwysol.

Mae'r Grant Gwella Addysg yn cefnogi'r broses o wireddu ein strategaeth addysg *Cymwys am Oes* ac mae telerau ac amodau'r grant yn cynnwys cyfeiriad penodol at ganolbwyntio cefnogaeth addysgol ar y dysgwyr hyn. Hefyd bydd angen cysylltiad uniongyrchol rhwng yr Awdurdod Lleol a chynlluniau busnes y consortia addysg rhanbarthol a'r amcanion a nodir yn nogfen newydd Cymwys am Oes, yn enwedig wrth iddynt ystyried canolbwyntio mwy ar degwch.

Argymhelliad 13
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth mwy y gellir ei wneud i gefnogi pobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o dangyflawni neu ymddieithrio, i gyfranogi mewn addysg bellach ac addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid datblygu hyn o dan y trefniadau newydd ar gyfer cyllid myfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor
Roedd Adolygiad Diamond yn argymell gwell pecyn o gymorth i fyfyrwyr sy'n awyddus i astudio'n rhan amser neu ar gyrsiau ôl-raddedig. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r pecyn llawn a nodwyd yn Adolygiad Diamond, gyda dim ond mân addasiadau. Bydd y pecyn hwn yn unigryw yn y Deyrnas Unedig ac mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y system arfaethedig yn cynnig hyblygrwydd ac yn annog myfyrwyr o bob cefndir i fynd i addysg uwch. Wrth wraidd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer helpu myfyrwyr, gwelir newid ffocws ym maes cymorth i israddedigion tuag at eu helpu â'u costau cynnal (bydd cost ffioedd dysgu'n cael ei thalu'n llwyr drwy gyfrwng benthyciadau). Bydd hyn yn golygu y bydd y cymorth cynhaliaeth yn well i'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac mai'r rhai mwyaf anghenus a gaiff y grant mwyaf.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Diamond yn adeiladu ar nifer o egwyddorion pwysig:

- cadw at egwyddor cyffredinoliaeth o fewn system flaengar;
- am y tro cyntaf yn y DU, sicrhau dull teg a chyson ar draws lefelau a moddau astudio;
- sicrhau buddsoddiad sy'n cael ei rannu rhwng y llywodraeth a'r rhai sy'n cael budd uniongyrchol ohono; a
- ei gwneud yn haws i bobl astudio drwy leihau rhwystrau megis costau byw.

Y mater pwysig yw cyfanswm y gost i'r myfyrwyr, lefelau eu dyled yn gyffredinol ac amseriad y cyfraniadau. Gwarentir lefel sylfaenol o gefnogaeth i bob myfyriwr yng Nghymru, a byddant yn well eu byd na'u cymheiriaid yn Lloegr. Byddant yn cael grant cynhaliaeth heb brawf modd o £1,000 y flwyddyn.

Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a roddir ar waith yn llwyr o'r flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch sy'n dymuno i'w gyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr, ymrwymo i weithgareddau a buddsoddiadau sy'n hybu amcanion sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cyfle cyfartal o ran mynediad i addysg uwch ac â hyrwyddo addysg uwch. Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch sôn am y gweithgareddau a'r buddsoddiadau hyn mewn cynlluniau ffioedd a mynediad a gyflwynir i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'w cymeradwyo. Yn y cyd-destun hwn, mae a wnelo hyrwyddo cyfle cyfartal â chwalu'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol rhag manteisio ar addysg uwch. Gall grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch gynnwys pobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Argymhelliad 14
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adroddiad y bobl ifanc a weithiodd gyda'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant, Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid (2016) a sut y gall fwrw ymlaen â'u hargymhellion. Dylai Llywodraeth Cymru ledaenu'r adroddiad ar draws y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a gofyn iddynt ddilyn yr argymhellion cyn belled ag y bo modd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y cynnydd yn y 12 mis nesaf.

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor
Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael ar Hwb, ein platfform electronig sydd ar gael i bob ysgol yng Nghymru a bydd yn codi ymwybyddiaeth ohono drwy ein cylchlythyr i bob ysgol - Dysg, gan ofyn i weithwyr addysg proffesiynol a darparwyr gwasanaethau ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd gan y bobl ifanc yn eu darpariaeth.

Goblygiadau Ariannol (argymhellion 1 i 14)
Dim, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg